- “the NRBW Order” means the Natural Resources Body for Wales (Establishment) Order 2012;”.

(3) Yn y diffiniad o “regulator”, yn is-baragraff (a)—

- (a) ym mharagraff (i) hepgorer “and Wales”;
- (b) ar ôl paragraff (i) mewnosoder—
  - “(ia) Wales, the NRBW;”.

**420.**—(1) Mae rheoliad 20 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn y diffiniad o “area”—
  - (a) yn is-baragraff (a) hepgorer “and Wales”;
  - (b) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—
    - “(aa) in respect of the NRBW, Wales;”.
- (3) Yn y diffiniad o “authority”, yn lle is-baragraff (a) rhodder—
  - “(a) the Welsh Ministers, where P’s regulator is the NRBW;”.

**421.**—(1) Mae rheoliad 27 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn is-baragraff (a)(i), hepgorer “or Wales”.
- (3) Ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—
  - “(aa) the NRBW, where P has its registered office in Wales.”

**422.**—(1) Mae rheoliad 45(5) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn is-baragraff (a), hepgorer “and Wales”.
- (3) Yn is-baragraff (b), ar ôl “in relation to” mewnosoder “Wales;”.

**423.** Yn rheoliadau 52(4) a 73(3)(a), ar ôl “Environment Act 1995” mewnosoder “, article 11 of the NRBW Order”.

**424.** Yn rheoliad 86, ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

- (“1A) The relevant provisions have effect as if—
  - (a) in regulation 2(1) the definition of “regulator” was amended as follows—
    - (i) in sub-paragraph (i) omit “and Wales”;
    - (ii) after sub-paragraph (i) insert—
      - “(ia) in relation to an installation (other than an offshore installation) which is (or will be) situated in Wales, the Natural Resources Body for Wales;”;
  - (b) regulation 35(5) was amended as follows—
    - (i) in sub-paragraph (a) omit “and Wales”; and
    - (ii) in sub-paragraph (b) after “in relation to” insert “Wales;”.

**425.** Yn rheoliad 87, ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

- “(1A) The relevant provisions have effect as if the 2010 Regulations were amended as follows—
  - (a) in regulation 4(1)—
    - (i) in sub-paragraph (a)(i) omit “or Wales”;
    - (ii) after sub-paragraph (a) insert—
      - “(aa) the Natural Resources Body for Wales, where the UK operator has its registered office in Wales;”;
  - (b) in regulation 7, for sub-paragraph (a) substitute—

- “(a) the Welsh Ministers, where the regulator is the Natural Resources Body for Wales;”;
- (c) in regulation 52(9)—
  - (i) for sub-paragraph (a) substitute—
    - “(a) in respect of an appeal against a notice or deemed refusal of the Environment Agency, the Secretary of State;”;
  - (ii) after sub-paragraph (a) insert—
    - “(aa) in respect of an appeal against a notice or deemed refusal of the Natural Resources Body for Wales, the Welsh Ministers;”;
- (d) in regulation 60—
  - (i) in paragraph (5)(a) for “paragraph (5A)” substitute “paragraphs (5A) to (5C)”;
  - (ii) in paragraph (5)(g) after “and 9” insert “, as modified by paragraph (7A)”;
  - (iii) for paragraph (5A) substitute—
    - “(5A) In regulation 2—
      - (a) in the definition of “area”—
        - (i) in sub-paragraph (a) omit “and Wales”
        - (ii) after sub-paragraph (a) insert—
          - “(aa) in respect of the Natural Resources Body for Wales, Wales;”;
      - (b) in the definition of “UK operator”, after “means” insert “(subject to regulation 2A of the Aviation Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme Regulations 2010).”;
    - (iv) after paragraph (5A) insert—
      - “(5B) In regulation 4—
        - (a) in sub-paragraph (a)(i) omit “or Wales”;
        - (b) after sub-paragraph (a) insert—
          - “(aa) the Natural Resources Body for Wales, where the UK operator has its registered office in Wales;”.
      - (5C) In regulation 7, for sub-paragraph (a) substitute—
        - “(a) the Welsh Ministers, where the regulator is the Natural Resources Body for Wales;”.
    - (v) after paragraph (7) insert—
      - “(7A) In regulation 36(6)—
        - (a) for sub-paragraph (a) substitute—
          - “(a) in respect of an appeal against a notice or deemed refusal of the Environment Agency, the Secretary of State;”;
        - (b) after sub-paragraph (a) insert—
          - “(aa) in respect of an appeal against a notice or deemed refusal of the Natural Resources Body for Wales, the Welsh Ministers;”.

426. Yn Atodlen 5, ym mharagraffau 3(2) ac (11) a 6(8), ar ôl “Environment Act 1995,” mewnosoder “article 11 of the NRW Order”.

427. Yn Atodlen 10, ym mharagraff 1(1)(a)(ii), yn lle “where A’s registered office is in Wales” rhodder “where the NRW is the regulator”.

## ATODLEN 5

Erthygl 4(2)

### OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

#### Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001

1. Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001(134) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

2.—(1) Mae rheoliad 2(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y diffiniad o “y Cyngor”.

(3) Yn y man priodol, mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“*the NRW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

(4) Yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

3. Yn rheoliadau 3 i 7, yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

4. Yn Atodlen 1, ar ôl “Y Comisiwn Coedwigaeth” mewnosoder “(os oes gan dir sydd wedi ei gynnwys mewn map drafft ffin â Lloegr)”.

#### Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001

5. Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001(135) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

6. Yn rheoliadau 10(2)(ch) a 15(9), yn lle “Gyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

7.—(1) Mae rheoliad 17 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (a), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru (y Cyngor)” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru (CANC)”.

(3) Yn is-baragraffau (b) ac (c), yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

#### Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002

8. Mae Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Apelau) (Cymru) 2002(136) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

9.—(1) Mae rheoliad 2 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(134) O.S. 2001/4001 (Cy. 329) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1796 (Cy. 171).

(135) O.S. 2001/4002 (Cy. 330).

(136) O.S. 2002/1772 (Cy. 168).

- (a) hepgorer y diffiniad o “y Cyngor”;
- (b) yn y man priodol mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“*the NRW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

(3) Ym mharagraff (2), yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

**10.** Yn rheoliadau 3(e), 6 i 10, 12 i 14, 16 a 19, yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd (gan gynnwys ym mhenawdau rheoliadau 7, 8 a 10), rhodder “CANC”.

### **Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002**

**11.**—(1) Mae rheoliad 2(1) o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002(**137**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Hepgorer y diffiniad o “y Cyngor”.
- (3) Yn y man priodol mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“*the NRW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

(4) Yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd (ac eithrio yn y diffiniad o “y Cyngor”), rhodder “CANC”.

### **Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002**

**12.** Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002(**138**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**13.**—(1) Mae rheoliad 2(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Hepgorer y diffiniad o “y Cyngor”.
- (3) Yn y man priodol, mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“*the NRW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

(4) Yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd (ac eithrio yn y diffiniad o “y Cyngor”), rhodder “CANC”.

**14.** Yn rheoliadau 3 i 10, yn lle “y Cyngor” ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

**15.** Yn Atodlen 1, ar ôl “Asiantaeth yr Amgylchedd” ac “Y Comisiwn Coedwigaeth” mewnosoder “(os oes gan dir sydd wedi ei gynnwys yn y map dros dro neu'r map terfynol ffin â Lloegr)”.

### **Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002**

**16.**—(1) Mae rheoliad 13(4) o Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002(**139**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (d), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

- (3) Hepgorer is-baragraff (dd).

(137) O.S. 2002/1794 (Cy. 169) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/142 (Cy. 14), 20.S. 005/1154 (Cy. 71), O.S. 2005/1270 (Cy. 90).

(138) O.S. 2002/1796 (Cy. 171).

(139) O.S. 2002/3188 (Cy. 304) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/1913 (Cy. 156), O.S. 2005/2759, O.S. 2011/1043.

**Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cyflwyno Tir fel Tir Mynediad) (Cymru) 2003**

17. Mae Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cyflwyno Tir fel Tir Mynediad) (Cymru) 2003(140) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

18. Yn rheoliad 2(1), hepgorer y diffiniad o “y Cyngor”.

19.—(1) Mae rheoliad 4(4) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (b), yn lle “y Cyngor” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

(3) Hepgorer is-baragraff (ch).

**Rheoliadau Mynediad i Cefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003**

20. Mae Rheoliadau Mynediad i Cefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003(141) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

21.—(1) Mae rheoliad 2(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y diffiniad o “y Cyngor”.

(3) Yn y man priodol mewnoder—

“ystyr “CANC” (“*the NRBW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

22. Yn rheoliadau 12(1) a 14(7) a (9), yn lle “y Cyngor”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

**Rheoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003**

23. Yn rheoliad 4(c) o Reoliadau Diogelu'r Arfordir (Hysbysiadau) (Cymru) 2003(142), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

**Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymrwyr yng Nghymru yn Unig neu yn Bennaf) 2004**

24.—(1) Mae rheoliad 3(3) o Reoliadau'r Diwydiant Dŵr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymrwyr yng Nghymru yn Unig neu yn Bennaf) 2004(143) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-baragraff (b), rhodder—

“(b) where the determination relates to an area that is the whole or part of an area of a water undertaker whose area is wholly in Wales, the Natural Resources Body for Wales;”.

(3) Yn lle is-baragraff (c), rhodder—

“(c) where the determination relates to an area that is the whole or part of an area of a water undertaker whose area is partly in Wales and partly in England, the Natural Resources Body for Wales and the Environment Agency;”.

**Rheoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004**

25. Yn rheoliad 5 o Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004(144), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

(140) O.S. 2003/135 (Cy. 9).

(141) O.S. 2003/142 (Cy. 14).

(142) O.S. 2003/1847 (Cy. 197).

(143) O.S. 2004/701 (Cy. 75) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2035.

(144) O.S. 2004/1490 (Cy. 155) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/1820 (Cy. 148), 20.S. 011/971 (Cy. 141), O.S. 2012/65 (Cy. 16).



### **Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**

**26.**—(1) Mae rheoliad 4 o Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004(**145**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mewn perthynas â phob cynllun neu raglen y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt, mae pob un o'r cyrff canlynol yn gyrrff ymgynghori—

(a) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(b) Cadw.”

(3) Ym mharagraff (2), yn lle “corff a grybwyllir ym mharagraff (1)” rhodder “Cadw”.

### **Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005**

**27.** Mae Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**146**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**28.** Yn rheoliad 5(1), yn y man priodol mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“*NRBW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

**29.** Yn rheoliad 11, ar ôl paragraff (a) mewnosoder—

“(aa) CANC;”.

**30.** Yn y darpariaethau a ganlyn, yn lle “Asiantaeth”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”—

(a) rheoliad 21(1) a (2);

(b) rheoliadau 23 i 28;

(c) rheoliad 33(1);

(d) rheoliad 42(5)(a) a (6)(b)(ii);

(e) rheoliad 47(4)(b);

(f) rheoliad 49(5)(a) a (6);

(g) rheoliad 51(3) a (4)(b);

(h) rheoliad 53;

(i) rheoliad 55.

**31.** Ym mhennawd Rhan 8, yn lle “Swyddogaethau'r Asiantaeth” rhodder “Swyddogaethau CANC”.

**32.** Yn y darpariaethau a ganlyn, yn lle “yr Asiantaeth”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”—

(a) rheoliad 56;

(b) rheoliad 58 (gan gynnwys y pennawd);

(c) rheoliad 60(1);

(d) rheoliadau 62 i 64 (gan gynnwys pennawd rheoliad 63).

**33.** Yn rheoliad 65A(1), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “CANC”.

(145) O.S. 2004/1656 (Cy. 170) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043.

(146) O.S. 2005/1806 (Cy. 138) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/937, O.S. 2007/3538, O.S. 2009/2861 (Cy. 250), O.S. 2010/675, 20.S. 010/1820 (Cy. 177), O.S. 2011/556 (C. 19), O.S. 2011/971 (Cy. 141), O.S. 2011/2043.

**34.** Yn rheoliadau 70 a 71(3), yn lle “yr Asiantaeth”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

**35.**—(1) Mae Atodlen 7 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4—

- (a) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “hysbysu'r Asiantaeth” rhodder “hysbysu CANC”;
- (b) yn is-baragraff (3)(b), ar ôl “o Ogledd Iwerddon” mewnosoder “neu'r Asiantaeth (os traddodir y gwastraff o Loegr)”;
- (c) yn is-baragraff (4)—
  - (i) ar ôl “neu Ogledd Iwerddon” mewnosoder “neu Loegr”;
  - (ii) ar ôl “o Ogledd Iwerddon” mewnosoder “neu'r Asiantaeth (os traddodir y gwastraff o Loegr)”.

(3) Ym mharagraff 5—

- (a) yn is-baragraff (1), ar ôl “neu Ogledd Iwerddon” mewnosoder “neu Loegr”;
- (b) yn is-baragraff (2)(a)(i), ar ôl “yng Ngogledd Iwerddon” mewnosoder “neu'r Asiantaeth (pan fo'r gwastraff i'w draddodi i draddodai yn Lloegr)”.

**36.** Yn Atodlen 10, yn Ffurf Hysbysiadau Cosbau Penodedig, yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005**

**37.**—(1) Mae rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005(**147**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o “cyrff ymgynghori penodol”—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”;
- (b) hepgorer is-baragraff (b).

### **Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006**

**38.** Yn rheoliad 18(2)(a) o Reoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006(**148**), ar ôl “yr Asiantaeth” mewnosoder “, Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006**

**39.** Mae Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006(**149**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**40.** Yn rheoliadau 5(1), 7(1)(l) a 13(3)(b), ac yn Atodlen 3, ym mharagraffau 10(1) a 13, yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” ac “yr Asiantaeth”, ym mhob man lle y maent yn digwydd, rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Gorchymyn Rheolaethau ar Gŵn (Heb Fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007**

**41.**—(1) Yn yr Atodlen i Orchymyn Rheolaethau ar Gŵn (Heb Fod yn Gymwys i Dir Dynodedig) (Cymru) 2007(**150**), mae'r Tabl wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(147) O.S. 2005/2839 (Cy. 203) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141).

(148) O.S. 2006/2988 (Cy. 277) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/3250, O.S. 2008/521, O.S. 2010/2146.

(149) O.S. 2006/2989 (Cy. 278) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/3538, O.S. 2010/675, O.S. 2012/283 (Cy. 47).

(150) O.S. 2007/701 (Cy. 58).

(2) Yn y disgrifiad cyntaf o dir, yn y golofn gyntaf, yn lle “y Comisiynwyr Coedwigaeth” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

#### **Rheoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007**

**42.** Yn rheoliad 7 o Reoliadau Milheintiau (Monitro) (Cymru) 2007(**151**), yn lle “Chyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Chorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

#### **Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007**

**43.** Mae Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2007(**152**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**44.**—(1) Yn rheoliad 2(1), mae'r diffiniad o “cyrff ymgynghori” wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (a), yn lle “Chyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

(3) Hepgorer is-baragraff (b).

**45.** Yn rheoliad 5(7)(ch), hepgorer “gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru”.

#### **Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008**

**46.** Mae Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2008(**153**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**47.**—(1) Mae rheoliad 6 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y diffiniad o “yr Asiantaeth”.

(3) Yn y man priodol mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“*NRBW*”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;”.

**48.** Yn rheoliadau 7(1)(a), 8(3) a 13A i 13CH, yn lle “yr Asiantaeth”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “CANC”.

**49.** Yn rheoliad 49, yn lle “yr Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “CANC”.

**50.** Yn Atodlen 4, ym mharagraff 19(1) a (2), yn lle “i'r Asiantaeth” rhodder “i CANC”.

#### **Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009**

**51.** Mae Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) 2009(**154**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**52.**—(1) Mae rheoliad 10 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)—

(a) cyn “Asiantaeth yr Amgylchedd”, yn y man cyntaf lle y mae'n ymddangos, mewnosoder “naill ai Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu”;

(b) yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd”, yn yr ail fan lle y mae'n digwydd, rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

(3) Ym mharagraff (3)(b)—

(151) O.S. 2007/2459 (Cy. 207).

(152) O.S. 2007/2933 (Cy. 253), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/1043.

(153) O.S. 2008/3143 (Cy. 278) fel y'i diwygiwyd gan 20.S. 010/489 (Cy.55), O.S. 2012/1238 (Cy. 151).

(154) O.S. 2009/995 (Cy. 81) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/556 (C. 19), O.S. 2011/971 (Cy. 141), O.S. 2011/1043, O.S. 2011/2131, O.S. 2012/630.

- (a) ym mharagraff (ii), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”;
- (b) ym mharagraff (iii), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

**53.**—(1) Mae rheoliad 11 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, yn y drydedd golofn—

- (a) yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”;
- (b) yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

**54.** Yn rheoliad 31(2), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Gorchymyn Strategaethau Troseddau ac Anhrefn (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2009**

**55.** Yn erthygl 3(2)(a) o Orchymyn Strategaethau Troseddau ac Anhrefn (Disgrifiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2009(155), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009**

**56.**—(1) Mae rheoliad 2(1) o Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009(156) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o “y cyrff ymgynghori”, yn is-baragraff (b)—

- (a) ym mharagraff (ii), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”;
- (b) hepgorer paragraff (iii).

(3) Yn y diffiniad o “ardal sensitif”, yn is-baragraff (e), yn lle “Gyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010**

**57.** Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010(157) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**58.**—(1) Mae rheoliad 2(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Hefgorer y diffiniad o “Asiantaeth yr Amgylchedd”.

(3) Yn y man priodol, mewnosoder—

“ystyr “CANC” (“NRBW”) yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru.”.

**59.** Yn rheoliadau 3(1)(c)(i) a 7 i 9, ac yn Atodlen 2, ym mharagraffau 5(1)(b) a 7, yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” ac “Asiantaeth”, ym mhob man lle y maent yn digwydd, rhodder “CANC”.

(155) O.S. 2009/3050 (Cy. 267) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101).

(156) O.S. 2009/3342 (Cy. 293).

(157) O.S. 2010/1493 (Cy. 136).

### **Gorchymyn SanCSIynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010**

60. Yn erthygl 2 o Orchymyn SanCSIynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010(158), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”(159).

### **Gorchymyn Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010**

61. Mae Gorchymyn Rheilffordd Llangollen a Chorwen 2010(160) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

62. Yn erthygl 9(8)(a) a phennawd erthygl 21, yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

63. Yn Atodlen 4, yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd”, ym mhob man lle y mae'n digwydd (gan gynnwys ym mhennawd yr Atodlen honno), rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Gorchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010**

64. Yn erthygl 4(1)(a) o Orchymyn Pysgod Môr (Ardal Benodedig) (Gwahardd Offer Gosod) (Cymru) 2010(161), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011**

65. Mae Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru 2011(162) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

66. Yn erthyglau 18(1) ac 19(1), ar ôl “gan neu ar ran” mewnosoder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru neu”.

67. Yn erthygl 25(1), yn lle “Gyngor Cefn Gwlad Cymru”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Rheoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011**

68. Yn rheoliad 1(c)(ii) o Reoliadau Apelio ynghylch Gwybodaeth am Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru) 2011(163), ar ôl “Asiantaeth yr Amgylchedd” mewnosoder “a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

### **Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011**

69. Mae Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Aildefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011(164) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

70. Yn rheoliad 2, yn y diffiniad o “y system WasteDataFlow”, yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

71. Yn rheoliad 3(1), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

---

(158) O.S. 2010/1821 (Cy. 178).

(159) Mae Atodlen 7 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â'r Gorchymyn hwn.

(160) O.S. 2010/2136 (Cy. 192).

(161) O.S. 2010/2915 (Cy. 240).

(162) O.S. 2011/559 (Cy. 81).

(163) O.S. 2011/865 (Cy. 127).

(164) O.S. 2011/1014 (Cy.152).

**Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011**

72. Mae Gorchymyn Llifogydd ac Erydu Arfordirol Atodol (Cymru) 2011(165) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

73. Yn erthygl 3(3), yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd” rhodder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru”.

74.—(1) Mae erthygl 3 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (2)—

(a) yn is-baragraff (b), yn lle “cyfeiriad yn adran 157(6)(a)” rhodder “cyfeiriadau yn adran 157(6)(a) a (7)(a)”;

(b) yn is-baragraff (c), ar ôl “i (e)” mewnosoder “a (7)(c)”.

(3) Ym mharagraff (3), ar ôl “ei roi i” mewnosoder “Gorff Adnoddau Naturiol Cymru neu”.

75.—(1) Mae erthygl 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl “Agency” mewnosoder “or the NRBW”;

(b) yn is-baragraff (c)—

(i) yn y geiriau agoriadol, hepgorer “yn lle'r geiriau “the Agency””;

(ii) ym mharagraff (i), ar y dechrau mewnosoder “yn lle'r geiriau “the Agency or the NRBW” in”;

(iii) ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

“(ia) yn lle'r geiriau “the Agency or, as the case may be, by the NRBW” in section 154(2);”;

(iv) ym mharagraff (ii), yn lle “yn y man lle y maent yn ymddangos” rhodder “yn lle'r geiriau “the Agency or the NRBW””;

(v) ym mharagraff (iii), yn lle “yn y man lle y maent yn ymddangos am yr ail a'r trydydd tro” rhodder “yn lle'r geiriau “the Agency or the NRBW” a “the Agency or, as the case may be, the NRBW””;

(c) ar ôl is-baragraff (ch) mewnosoder—

“(d) bod adran 154(7) wedi ei hepgor.”

(3) Ym mharagraff (2)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl “The Agency” mewnosoder “and the NRBW”;

(b) yn is-baragraff (b)—

(i) ar ôl “the Agency” mewnosoder “or, as the case may be, the NRBW”;

(ii) hepgorer “a (6)”;

(c) yn is-baragraff (c), ar ôl “157(2)(b)” mewnosoder “a (6)”;

(d) ar ôl is-baragraff (c) mewnosoder—

“(ca) bod y geiriau “the local authority” wedi eu rhoi yn lle'r geiriau “the NRBW” lle y maent yn ymddangos yn adran 157(7);”;

(e) yn is-baragraff (ch), yn lle “157(6)(a)” rhodder “157(7)(a)”;

(f) yn is-baragraff (d), yn lle “157(6)(c) i (e)” rhodder “157(7)(c)”.

**76.**—(1) Mae erthygl 6 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)—

(a) yn is-baragraff (a)—

(i) yn y geiriau agoriadol, ar ôl “Agency” mewnosoder “or by the NRBW”;

(ii) ym mharagraff (ii), hepgorer “am y tro cyntaf”;

(b) yn is-baragraff (b)—

(i) yn y geiriau agoriadol, ar ôl “Agency” mewnosoder “or the NRBW”;

(ii) ym mharagraff (ii), hepgorer “am yr eildro”.

(3) Ym mharagraff (2)—

(a) yn is-baragraff (a), ar ôl “Agency” mewnosoder “or by the NRBW”;

(b) yn is-baragraff (b), ar ôl “Agency” mewnosoder “or the NRBW”;

(c) yn is-baragraff (ch), ar ôl “171(2)(b)” mewnosoder “a (6)”.

(4) Ym mharagraff (3)—

(a) yn is-baragraff (dd)—

(i) ar ôl “Agency” mewnosoder “or the NRBW”;

(ii) hepgorer “ac 8”;

(b) ar ôl is-baragraff (dd) mewnosoder—

“(fa) bod y geiriau “or a local authority” wedi eu rhoi yn lle “, the Agency or the NRBW” ym mharagraff 8(1);”.

**77.** Yn erthygl 8, yn lle “Agency”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “appropriate agency”.

### **Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012**

**78.** Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(166) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**79.**—(1) Mae erthygl 27(3) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-baragraff (b), yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru” rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

(3) Hepgorer is-baragraff (c).

**80.**—(1) Yn Atodlen 4, mae'r Tabl wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle “Asiantaeth yr Amgylchedd”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

(3) Yn lle “Cyngor Cefn Gwlad Cymru”, ym mhob man lle y mae'n digwydd, rhodder “ Corff Adnoddau Naturiol Cymru”.

ATODLEN 6

Erthygl 4(2)

## IS-DDEDDFWRIAETH ARALL

**Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch a Brys (Ymgwymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) 1998**

1. Yng nghyfarwyddyd 4(1) o Gyfarwyddyd Mesurau Diogelwch a Brys (Ymgwymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth) 1998, ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

“(ba) The Natural Resources Body for Wales;”.

**Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Afon Dyfrdwy) (Cyfyngu ar Eogiaid a Sewin) 2004**

2. Mae Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Afon Dyfrdwy) (Cyfyngu ar Eogiaid a Sewin) 2004 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

3. Yn enw'r Gorchymyn ac yn erthygl 1, ar ôl “Environment Agency” mewnosoder “and Natural Resources Body for Wales”.

4. Yn erthyglau 5 a 9, yn lle “Agency” rhodder “appropriate agency”.

**Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) (Cymru) 2009**

5. Mae Gorchymyn Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfyngu ar Drwyddedau Pysgota â Rhwydi) (Cymru) 2009 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

6. Yn enw'r Gorchymyn ac yn erthygl 1(1), yn lle “Environment Agency” rhodder “Natural Resources Body for Wales”.

7.—(1) Mae erthygl 2 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y diffiniadau a ganlyn—

(a) “the Agency”;

(b) “the Agency’s area”.

(3) Ar ddiwedd y diffiniad o “licence”, hepgorer “and”.

(4) Yn y diffiniad o “net licence officer”, yn lle “Agency” ac “Agency's”, ym mhob man lle y maent yn digwydd, rhodder “NRBW” ac “NRBW's” yn eu tro.

(5) Yn y manau priodol mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

““the NRBW” means the Natural Resources Body for Wales;”;

““the NRBW’s area” means the area in respect of which the NRBW carries out its functions relating to fisheries pursuant to section 6(7A) of the Environment Act 1995.”

8. Yn erthyglau 3 a 4, yn lle “Agency's” ac “Agency”, ym mhob man lle y maent yn digwydd, rhodder “NRBW's” ac “NRBW” yn eu tro.

9. Yn erthygl 5, yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Subject to article 8(2), all applications for licences for each year pursuant to this Order must be made to the NRBW not later than the 31st day of December in the previous year.”

10.—(1) Mae erthygl 6 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraffau (1) a (3) i (6), yn lle “Agency” ac “Agency's”, ym mhob man lle y maent yn digwydd, rhodder “NRBW” ac “NRBW's” yn eu tro.



(3) Yn lle paragraff (2) rhodder—

“(2) The NRBW must publish the criteria referred to in paragraph (1) of this article, and make them available for public inspection at its offices.”

11. Yn erthygl 7(1), yn lle “Agency's” ac “Agency” rhodder “NRBW's” ac “NRBW” yn eu tro.

12.—(1) Mae'r Atodlen wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan 1—

(a) hepgorer colofn 3;

(b) yn y cofnod ynglŷn ag afonydd Cleddau Ddu a Chleddau Wen, yn lle “Agency” rhodder “NRBW”.

(3) Yn Rhan 2, hepgorer colofn 3.

## ATODLEN 7

Erthygl 10

### DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

## RHAN 1

### Darpariaethau cyffredinol

#### Dehongli

1.—(1) Yn yr Atodlen hon—

ystyr “y dyddiad trosglwyddo” (“*the transfer date*”) yw 1 Ebrill 2013;

ystyr “swyddogaeth drosglwyddedig” (“*transferred function*”) yw unrhyw swyddogaeth sydd, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn, yn dod yn arferadwy ar y dyddiad trosglwyddo gan gorff neu berson ac eithrio'r corff neu'r person yr oedd yn arferadwy ganddo yn union cyn y dyddiad hwnnw;

ystyr “trosglwyddai” (“*transferee*”) yw y corff neu'r person y daw swyddogaeth drosglwyddedig yn arferadwy ganddo ar y dyddiad trosglwyddo;

ystyr “trosglwyddwr” (“*transferor*”) yw y corff neu'r person yr oedd swyddogaeth drosglwyddedig yn arferadwy ganddo yn union cyn y dyddiad trosglwyddo.

(2) At ddibenion y diffiniad o “swyddogaeth drosglwyddedig”, nid yw o bwys bod swyddogaeth yn dal yn arferadwy ar y dyddiad trosglwyddo ac wedyn gan y trosglwyddwr yn ogystal â'r trosglwyddai (boed hynny ar y cyd neu fel arall).

(3) Yn yr Atodlen hon, mae unrhyw gyfeiriad at unrhyw beth a wneir gan drosglwyddwr neu mewn perthynas ag ef yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw beth a gaiff ei drin, yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad, fel pe bai wedi ei wneud gan neu mewn perthynas â'r trosglwyddwr hwnnw.

#### Parhad o ran ymarfer y swyddogaethau

2.—(1) Nid oes yr un o'r pethau a ganlyn, hynny yw—

(a) dileu CCGC,

(b) trosglwyddo, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw swyddogaeth gan y Gorchymyn hwn, nac

(c) trosglwyddo unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau gan y Gorchymyn hwn, yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir cyn i'r dileu, y trosglwyddo, yr addasu, y diddymu neu'r dirymu gael effaith.

(2) Caiff unrhyw beth (yn cynnwys, heb gyfyngiad, achos cyfreithiol) sydd, ar y dyddiad trosglwyddo, yn y broses o gael ei wneud gan neu mewn perthynas â throsglwyddwr i ymarfer swyddogaeth drosglwyddedig, neu mewn cysylltiad â swyddogaeth drosglwyddedig, gael ei barhau gan neu mewn perthynas â'r trosglwyddai.

(3) Mae unrhyw beth a wneir gan neu mewn perthynas â throsglwyddwr cyn y dyddiad trosglwyddo i ymarfer swyddogaeth drosglwyddedig, neu mewn cysylltiad â swyddogaeth drosglwyddedig, i'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn parhau â'i effaith ar y dyddiad hwnnw ac wedyn, yn cael effaith fel pe bai wedi ei wneud gan neu mewn perthynas â'r trosglwyddai.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad at drosglwyddwr (ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at drosglwyddwr) mewn unrhyw ddogfen y mae darpariaethau'r paragraff hwn yn gymwys iddi, neu sy'n ymwneud ag unrhyw beth y mae'r darpariaethau hynny'n gymwys iddo, i'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i'r darpariaethau hynny, i'w drin fel cyfeiriad at y trosglwyddai.

### 3.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) pan roddwyd swyddogaeth (“yr hen swyddogaeth”) i CCGC gan Ran 7 o Ddeddf 1990 neu unrhyw ddarpariaeth arall a ddiddymir gan y Gorchymyn hwn;
- (b) pan roddir swyddogaeth gyfatebol (“y swyddogaeth newydd”) i'r Corff gan unrhyw un o ddarpariaethau'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i diwygir gan y Gorchymyn hwn).

(2) Caiff unrhyw beth (yn cynnwys, heb gyfyngiad, achos cyfreithiol) sydd, ar y dyddiad trosglwyddo, yn y broses o gael ei wneud mewn perthynas â'r hen swyddogaeth gael ei barhau mewn perthynas â'r swyddogaeth newydd.

(3) Mae unrhyw beth a wnaed mewn perthynas â'r hen swyddogaeth yn cael effaith fel pe bai'n cael ei wneud mewn perthynas â'r swyddogaeth newydd, i'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn parhau â'i effaith ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad at CCGC (ac unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddarllen fel cyfeiriad at CCGC) mewn unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r hen swyddogaeth, i'w drin fel cyfeiriad at y Corff, i'r graddau y mae'n ofynnol er mwyn rhoi effaith i'r paragraff hwn.

### 4. Nid yw darpariaethau'r Rhan hon—

- (a) yn rhagfarnu unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag unrhyw swyddogaethau penodol;
- (b) i gael eu trin fel pe baent yn peri i unrhyw gontract cyflogaeth a wneir gan drosglwyddwr barhau mewn grym.

## RHAN 2

### Cyfarwyddiadau

#### Cyfarwyddiadau cyffredinol

5.—(1) Mae cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 3(1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949(167) neu adran 131(4) o Ddeddf 1990 cyn y dyddiad trosglwyddo i'w drin ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny fel cyfarwyddyd a roddir i'r Corff o dan erthygl 11(1) o'r Gorchymyn Sefydlu.

---

(167)1949 p. 97.

(2) Mae cyfarwyddyd a roddwyd at ddibenion adran 1(4) o Ddeddf Coedwigaeth 1967(168) cyn y dyddiad trosglwyddo, i'w drin, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaeth a ddaw'n arferadwy gan y Corff yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Gorchymyn hwn, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, fel cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11(1) o'r Gorchymyn Sefydlu.

(3) Mae cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 40(1) o Ddeddf 1995 cyn y dyddiad trosglwyddo, i'w drin, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â swyddogaeth drosglwyddedig, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, fel cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11(1) o'r Gorchymyn Sefydlu.

(4) Mae cyfarwyddyd a roddwyd o dan adran 40(2) o Ddeddf 1995 cyn y dyddiad trosglwyddo, i'w drin, i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny fel cyfarwyddyd a roddwyd i'r Corff o dan erthygl 11(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) ond mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon mewn perthynas â chyfarwyddiadau penodol.

### **Cyfarwyddyd Dosbarthu Dŵr Wyneb a Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2009**

6.—(1) Mae Cyfarwyddyd Dosbarthu Dŵr Wyneb a Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2009 i'w drin ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny fel cyfarwyddyd a roddir i'r asiantaeth briodol—

- (a) o dan erthygl 11(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
- (b) o dan adran 40(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Asiantaeth yr Amgylchedd;
- (c) o dan erthygl 11(3) o'r Gorchymyn Sefydlu(169) (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) ac o dan adran 40(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddyd yn gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu ar y cyd.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i “asiantaeth briodol” yr un ystyr ag “appropriate agency” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

### **Cyfarwyddiadau Teipoleg, Safonau a gwerthoedd trothwy Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2010**

7.—(1) Mae Cyfarwyddiadau Teipoleg, Safonau a gwerthoedd trothwy Dŵr Daear Ardaloedd Basn Afon (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2010 i gael eu trin, ar y dyddiad trosglwyddo ac wedi hynny, fel cyfarwyddiadau a roddir i'r asiantaeth briodol—

- (a) o dan erthyglau 11(3) ac 11A(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i hamnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) i'r graddau y mae'r cyfarwyddiadau'n gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
- (b) o dan adrannau 40(2) a 122(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r cyfarwyddiadau'n gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Asiantaeth yr Amgylchedd; ac
- (c) o dan erthyglau 11(3) ac 11A(3) o'r Gorchymyn Sefydlu (fel y'i amnewidiwyd gan y Gorchymyn hwn) ac o dan adrannau 40(2) a 122(2) o Ddeddf 1995 i'r graddau y mae'r

(168) 1967 p. 10.

(169) O.S. 2003/3242 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2035, O.S. 2007/3538, O.S. 2008/1097 (yn rhannol o 14/05/08, yn llwyr o 24/03/15), O.S. 2010/630 (C. 42), O.S. 2011/556 (C. 19).

cyfarwyddiadau'n gymwys pan yr asiantaeth briodol yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithredu ar y cyd.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i “asiantaeth briodol” yr un ystyr ag “appropriate agency” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Amgylchedd Dŵr (y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

## RHAN 3

### Darpariaethau'n ymwneud â diwygiadau i ddeddfiadau penodol

#### Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

8. Er bod y Gorchymyn hwn yn diddymu Atodlenni 8 a 9 i Ddeddf 1990, mae'r diwygiadau a wnaed gan yr Atodlenni hynny i Ddeddfau eraill yn dal i gael effaith i'r graddau yr oeddent yn cael effaith yn union cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau i'r Ddeddfau eraill hynny a wnaed gan y Gorchymyn hwn.

#### Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999

9.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys at ddibenion rheoliad 7(11) o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999(170).

(2) Pan fo—

- (a) adroddiad diogelwch yn cael ei anfon at yr awdurdod cymwys mewn perthynas â sefydliad yng Nghymru;
- (b) yr adroddiad diogelwch hwnnw yn cynnwys gwybodaeth sy'n cyfeirio at wybodaeth mewn adroddiad neu hysbysiad arall a anfonwyd at Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol â gofynion a osodwyd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad; ac
- (c) yr adroddiad neu'r hysbysiad arall wedi ei anfon at Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y dyddiad trosglwyddo;

yna, ystyrir bod yr adroddiad neu'r hysbysiad a anfonwyd at Asiantaeth yr Amgylchedd wedi ei anfon at yr asiantaeth briodol.

(3) Yn y paragraff hwn, mae i “asiantaeth briodol”, “sefydliad”, “hysbysiad” ac “adroddiad diogelwch” yr ystyron a roddir i “appropriate agency”, “establishment”, “notification” a “safety report” yn eu tro gan reoliad 2(1) o Reoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999 fel y'u diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

#### Rheoliadau Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002

10.—(1) Mae person sy'n swyddog awdurdodedig at ddibenion Rheoliadau Defnyddiau Atgynhyrchiol y Goedwig (Prydain Fawr) 2002(171) yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei ystyried yn swyddog awdurdodedig wedi hynny yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ei awdurdodi gan y Comisiynwyr a chan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar bwerau'r Comisiynwyr na Gweinidogion Cymru i ddirymu, ar y dyddiad trosglwyddo neu wedi hynny, unrhyw awdurdodiad sydd gan berson neu i adnewyddu'r awdurdodiad hwnnw wedi hynny.

(170) O.S. 1999/743 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2469, O.S. 2005/1088, O.S. 2008/960, O.S. 2008/1087, O.S. 2009/1595.

(171) O.S. 2002/3026 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2530.

### **Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005**

**11.**—(1) Mae person sy'n arolygydd at ddibenion Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005(172) yn union cyn y dyddiad trosglwyddo yn cael ei ystyried yn arolygydd wedi hynny yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi ei awdurdodi gan y Comisiynwyr a chan Weinidogion Cymru.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar bwerau'r Comisiynwyr na Gweinidogion Cymru i ddirymu, ar y dyddiad trosglwyddo neu wedi hynny, unrhyw awdurdodiad sydd gan berson neu i adnewyddu'r awdurdodiad hwnnw wedi hynny.

### **Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010**

**12.**—(1) Yn y paragraff hwn—

ystyr “Deddf 2008” (“*the 2008 Act*”) yw Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008; ystyr “Gorchymyn 2010” (“*the 2010 Order*”) yw Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010(173) fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn.

(2) Mae adran 67 o Ddeddf 2008 yn gymwys i Orchymyn 2010—

- (a) fel pe bai cyfnod o un flwyddyn wedi ei roi yn lle cyfnod o dair blynedd yn is-adran (2); a
- (b) fel pe bai unrhyw ddarpariaeth yng Ngorchymyn 2010 i roi pŵer i reoleiddiwr i osod sancsiwn sifil ar gyfer trosedd—
  - (i) wedi ei gwneud o dan neu yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf 2008; a
  - (ii) wedi dod i rym ar y dyddiad trosglwyddo.

## **RHAN 4**

### **Darpariaethau'n ymwneud â dileu CCGC**

#### **Dehongli**

**13.** Yn y Rhan hon, ystyr “y cyfnod perthnasol” (“*the relevant period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2013.

#### **Datganiad terfynol o gyfrifon mewn perthynas â CCGC**

**14.**—(1) Rhaid i'r Corff baratoi datganiad o gyfrifon mewn perthynas â CCGC ar gyfer y cyfnod perthnasol.

(2) Rhaid i'r Corff gyflwyno'r datganiad o gyfrifon i Weinidogion Cymru ar ba ffurf bynnag a phryd bynnag a gyfarwyddir ganddynt.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi o'r datganiad o gyfrifon at Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 31 Awst 2013 neu cyn hynny.

(4) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

- (a) archwilio ac ardystio'r datganiad o gyfrifon ac adrodd arno;
- (b) rhoi copi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon ynghyd â'i adroddiad arno i'r Corff; ac
- (c) heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad o gyfrifon gael ei gyflwyno, gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gopi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon a'r adroddiad.

(172) O.S. 2005/2517 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/2696, O.S. 2008/644, O.S. 2009/594, O.S. 2009/3020.

(173) O.S. 2010/1821 (Cy. 178).

### **Adroddiad terfynol mewn perthynas â CCGC**

**15.**—(1) Rhaid i'r Corff baratoi, ar gyfer Gweinidogion Cymru, adroddiad ar y ffordd y cafodd swyddogaethau CCGC eu harfer a'u cyflawni yn ystod y cyfnod perthnasol.

(2) Rhaid i'r Corff gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl 31 Mawrth 2013.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.